Cymdeithas Edward Llwyd

Rhifyn Tri

# www.llenNatur.com

## *Gwefan i Naturiaethwyr ac i Bobl Cymru*

*Golygydd: Duncan Brown, Cysodi: Ifor Williams*, **ychwanegwch ddeunydd i -** llennatur@yahoo.co.uk




**Diolch i Huw Beynon am y llun.**

### Daeargryn Market Rasen 27 Chwefror 2008

Ar y diwrnod hwn, digwyddodd ddaeargryn a oedd wedi ei chanoli ar Market Raisen, Swydd Lincoln yn mesur 5.2 ar Raddfa Richter neithiwr. Hwn oedd y ddaeargryn gryfaf ar dir mawr Prydain ers daeargryn Nefyn yn 1984 ond cafwyd un cryfach ar y Dogger Bank, Môr y Gogledd yn 1931.

**Ydych CHI'N cofio daeargryn 1984?** Roeddwn ar fin mynd i fy ngwaith pan glywsom swn arswydus a finnau'n meddwl bod y simdde ar fin ddisgyn. Rhedais allan i'r ardd heb falio dim am fy nheulu bach yn y ty!! Mi ddigwyddodd y ddaeargryn pan roeddwn i yng nghanol gwerthu ein ty yn Nyffryn Ardudwy a phrynu ty newydd yn y Waunfawr. Roedden ni ar fin arwyddo'r cytundeb ond mi ddaliwyd yn ôl nes cael ail arolwg. Ond roedd popeth yn iawn.

***Profiad Gwyn Williams***

Dwi'n cofio pawb yn dod allan i'r stryd yn eu dillad nos - gan feddwl bod atomfa Trawsfynydd wedi ffrwydro.

***Profiad Ifor Williams***

Criw o ffrindiau'r plant wedi cael *sleep over,* sgrechain a phawb wedi dychryn. Roedd hyn tua 08:30 y bore.

Yn ystod '84, cafwyd nifer o ddeargrynfeydd, yma yn ardal Caernarfon. Roeddwn yn y Groeslon ar y pryd amser cinio oedd hi ar ddydd Sadwrn, a chofiaf weld y tir o'm mlaen fel pe tai'n don yn dod ataf ac yna'r cryndod, ond, wrth lwc, doedd dim niwed.

Cofiaf glywed pobl yn son yng Nghaernarfon, mai'r tywydd poeth yr haf hwnnw oedd yn gyfrifol am y deargrynfeydd gan fod y ddaear wedi cynhesu!.

Gallwch weld map ar wefan y British Geological Survey yma -http://194.66.252.141/website/gdi/default.htm?main-serv=earthquakes

### Adar Maes y Gad

Bu Gapten Arthur de Sowerby drannoeth cyflafan fawr y Somme yn Chwefror 1919 yn ymweld â ffosydd gogledd Ffrainc yn rhinwedd ei swydd, ac wrth basio, yn gwylio adar. Beth welodd o felly? *Probably,* meddai, *the commonest birds of the devastated areas in north France are the Hooded Crow and the Magpie*. Y fran lwyd a'r bioden, dau aderyn sydd yn bwyta celanedd. Ydych chi'n meddwl yr un peth ag yr ydw'i? Am y fran lwyd dywedodd ...*and a handsome fellow he is too......the Carrion Crow, whose very name stigmatises him as a probable frequenter of a stricken field,..depends more on cultivated land than does the Hooded Crow*. Ni welodd llawer o frain tyddyn felly - dyna ydi ein henw mwy cartrefol ni ar y *carrion crow*. Yma ym Mhrydain nid yw'r ddwy fran yn cyd-fyw yn yr un ardal. Am y bioden, meddai *he is everywhere, and appears to favour smiling farmland and shell-torn wilderness alike*...fel petai Diffaethdir y Gad yn gynefin cyfarwydd i bawb!




Roedd petris hefyd yn gyffredin iawn, yn cael modd i fyw ar y grawn a sarnwyd dan draed y milwyr cyn y bu cyfle i'w gywain. Aderyn cyffredin ar draws Cymru, fel ymhobman, oedd hwn nes iddo brinhau tua diwedd y ganrif (mae yna "Tai Petris" yn Nyffryn Nanlle). Clywodd de Sowerby ei grecian cartrefol o bob cyfeiriad wrth sefyll ar ragfuriau'r ffosydd yn ardal Hazebrouck. Ei unig ddarganfyddiad o bwys adaryddol oedd Llwyd y Mynydd, yr Alpine accentor, chwaer rhywogaeth y siani lwyd, a oedd, fel y milwyr, ymhell o'i chynefin.

*British Birds* 1919

## Dyddiadur Charles Darwin ar y Beagle

*Good Success, Tierra del Fuego 17/12/1832: The harbour of Good Success is a fine piece of water and surrounded on all sides by low mountains of slate. These are of the usual rounded or saddlebacked shape such as occur in the less wild parts of North Wales.*

*Rio de Janeiro 28/05/1832 : Visited the shore behind the Sugar Loaf and again obtained vast numbers of insects - the situation being much the same as that of Barmouth, many of the insects were closely allied: as I watched the elegant Cicindelae running on this sand, Barmouth with all its charms rose vividly before my mind.*

*Sierra de las Animas, Maldonado 19/05/1833 : On the summit there were several small heaps of stones; which evidently had been there for many years…declared it was the work of Indians in old times: - they were like, though on a smaller scale, the heaps so common in the Welsh mountains. How universal is the desire of Man to show he has ascended the highest points in every country.*

Aeth Darwin i fyny Moel Tryfan hefyd.




*"In the letter to J. D. Hooker, 25 August 1863, Charles Darwin mentioned that Lyell had informed him that he had found `Trimmers Arctic shells on Moel Tryfan'. Joshua Trimmer reported finding broken fragments of the shells of marine molluscs on Moel Tryfan, and argued that their presence indicated that they were deposited when the summit of Moel Tryfan was submerged beneath the sea (Trimmer 1831). Charles Darwin had pursued fieldwork on Moel Tryfan in 1842 but had not found shells (`Ancient glaciers of Caernarvonshire', pp. 184–5 (Collected papers 1: 167))."*

Glywsoch chi rhywbeth o'i hanes yn ardal Moel Tryfan ger Rhosgadfan?

## Llwch y Sahara

Ar y 23 Ionawr 2008 ymddangosodd y llwch hwn ar do'r fan ac ar silffoedd y ffenestri. Roedd wedi dod o'r Sahara.




Os ydych yn cofio gweld haenaen o lwch oren - frown ar eich car tua'r dyddiad yma gadewch i ni wybod. Cawsom gofnodion o Bumlumon yn y de yn ogystal ag yma yn y gogledd ond ni chafwyd glaw na llwch yn ardal y Trallwng.


***Rhai achlysuron eraill o lwch yng Nghymru:***

Y tro cyntaf i mi ddod yn ymwybodol o lwch yn cyrraedd yma o'r Sahara oedd ar yr 8fed o Fedi 1988 pan welais a chlywais am lwch sahara ar geir yr ardal ar ôl glaw'r nos a mellt a tharannau (DB, Waunfawr)

***Merched y Wawr Trawsfynydd (19/10/2001)*** yn dweud fel petai ag un llais iddyn nhw gael llwch ar eu ceir heddiw ar ôl i mi son am "lwch Sahara" mewn sgwrs

*Dustfalls on Anglesey originating from the Great Western and Great Eastern Deserts of Algeria on 25/26 February 2003. One of the heaviest dustfalls seen here* [ar 13 Mawrth 2006 yn Llansadwrn gan Don Perkins] *since 14 October 2001.*

***A satellite** at 1110 GMT on 13th December 2003 shows dust blowing offshore from Spanish Sahara and Mauritania, south of the Canary Islands, forming a dust-plume northwest into the Atlantic. It is likely that this is the same event that led to dust being transported to Anglesey on 19 December..*




***Light reddish brown coloured dust** deposited with rainfall on the morning of 4 Feb 2004 after gale force winds.*
*(Don Perkins, Llansadwrn)*

## Ceir y Gwynt Teg




Mae defnyddio enwau o fyd natur neu'r amgylchedd i farchnata yn gyffredin iawn, hyd yn oed ceir. Mae llawer i air o'n cwmpas yn ddyddiol a'u hystyr yn hollol eglur, ond anaml iawn mae rhywun yn mynd ar ôl eu hystyrion go iawn e.e., Scirrocco, Passat a Bora gan VW, Zephyr a’r Maestro gan Ford ac Austin

Wel mae'r uchod i gyd yn fathau o wyntoedd. Scirocco yw'r gwynt poeth sy'n chwythu dros dde'r Eidal, Sicily, ac ynysoedd y Môr Canoldir. O gyfeiriad y de ddwyrain, daw'r gwynt yma o'r Sahara, ac yn gwlychu pan ddaw dros ddwr y môr.

Ystyr Passat, yn yr Almaeneg yw’r Gwynt Cyson, “*Trade Winds*”

*“...Lanzarote with it's ideal weather conditions is perfect for kiteboarding. The best wind conditions for experienced air-heads is during the summer when the Passat wind kicks in”.*

Yna'r Bora, gwynt gogleddol, milain sych ac oer a geir ym mor yr Adriatic ydi hwn.

'Dachi’n cofio Z Cars ers talwm, a’r car Zephyr?. Mae gwreiddiau'r gair yn yr iaith Roegaidd, Zephuros, duw'r gwynt gorllewinol. Fe adnabyddir y gwynt hwn fel y gwynt ffrwythlon, negeseuwr y gwanwyn.

Un o'r ceir 'Prydeinig' olaf i'w gynhyrchu ar raddfa eang oedd yr Austin Maestro. Gwynt gogledd orllewin yn ystod tywydd braf yn enwedig yn yr haf, yw hwn yn yr Adriatig. Sydd hefyd i'w gael ar lannau Corsica a Sardinia.

Ac i 'anoracs'y ceir cyflym drudfawr, cawn yr enw cynhyrchwyr Zonda. Gwynt sydd yn cael ei gynhyrchu o awyr llaith yn nhrofannau'r Arianin yw hwn

A beth am GT? Gwynt Teg efallai - pwy a wyr?.

## Nadroedd tatws Sant Padrig

Bum mlynedd yn ôl bu farw Mary Vaughan Jones, naturiaethwraig, biolegydd, athrawes a hanesydd. Ymysg ei phapurau yn archif Antur Waunfawr mae un cofnod sydd yn werth ei ailadrodd: "Roedd coedydd glannau'r Wyrfai yn gynefin gwiberod flynyddoedd yn ôl. Rwy'n cofio Mam a finnau'n yn edrych dros fferm Gwredog Isaf a hithau'n dweud 'mae nhw wedi cael tatws hadyd o Iwerddon - fydd yna ddim nadroedd yna rwan' ". Ia, stori Gwyl Sant Padrig ydi hon. Dyma mae'n debyg oedd "rhesymeg" mam Mary yn y cofnod - Sant Padrig a waredodd Iwerddon o'i nadroedd - Iwerddon yn ddiarhebol ddibynnol ar datws - felly - tatws Iwerddon yn cael gwared o nadroedd pa le bynnag y'i plennir.

'Dwinau'n cofio gwiberod yn yr un llecyn yn y chwedegau. Cofiaf Frank Nestfield, a drigai yn y tyddyn drws nesaf i Blas Glan yr Afon - taid y diweddar Rhingyll Steven Nestfield gyda llaw, a fu farw mor drasig ddwy flynedd yn ôl - yn eu "piclo" mewn potia jam. Roedd hynny yn nechrau'r 60au.

Dw'n i ddim am ei rhesymeg, ond roedd proffwydoliaeth mam Mary yn berffaith gywir. Nid oes nadroedd mwyach yn y llecyn hwn ar lannau'r Wyrfai . Bum i'n holi perchnogion presennol y tai, rhag ofn mod i'n cyfeiliorni - ond na. Mae gweddw Steven, sy'n byw o hyd yn yr un lle, hefyd yn cofio Frank a'i nadroedd-potiau-jam yn y 1970au pan oedd y cwpwl yn canlyn. Roedd y tacla medde hi yn dod i fewn i'r ty. Holais hefyd perchennog presennol Plas Glan yr Afon am wybodaeth am y nadroedd, ond ni welodd Arthur (ffermwr sydd yn adnabod ei dir) neidr yn y cyffiniau ers o leiaf 10 mlynedd, er iddo yntau hefyd gael ei siarsio yn ei blentyndod i gadw draw o "Adder Hill". I ble yr aethant ? Er fod ychydig mwy o goed yn y cyffiniau efallai, mae'r cynefin o eithin a rhedyn yn llygad yr haul yno o hyd.

--

Hanes gan wraig o Lerpwl, yn cofio stori gan ei thad yn prynu tail o’r Iwerddon yn fferm Tan y Graig, Llanfaglan. Ar ôl ei dasgu ar y caeau, ni welwyd yr un neidr yno wedyn.

--

Lle welsoch chwi wiber?
A glywsoch chwi Lên Gwerin am wiberod?
Gadewch i ni wybod.
Ebostiwch - *llennatur@yahoo.co.uk*

# Perci (Caeau) Llydaw


| | |
|---|---|
| **Enwau cyslltiedig a'r pridd** | |
| Park ar min du | cae'r maen du |
| Park ar pri | cae clai |
| Lanneg ar veingleuz | rhos chwarel |
| Park meingleuz | cae chwarel |
| Park rohel | cae carreg |
| Park roc'hellou | cae cerrig |
| Park poulopri | cae pwll clai |
| Prajou fall | porfa wael |
| **Enwau yn gysylltiedig ag anifeiliaid** | |
| Park ar skrillad | cae sioncod |
| Park ar marc'h | cae stalwyn |
| Park ar hezeg | cae ceffylau |
| Park bleiz bihan | cae blaidd bach |
| Park poull ar vuoc'h | cae pwll y fuwch |
| Park garz ar hat | cae gallt y sgwarnog |
| Park ar bleiz | cae blaidd |
| Park run azen | cae allt yr asyn |
| Park ar louzet | cae moch daear |
| Liorz goniffiou / Liorz ar honifl | cae cwningod |
| **Enwau yn gysylltedig â hanes** | |
| Logel manac'h | cell y mynach |
| Park manac'h | cae'r mynach |
| Park de la motte | cae'r mŵd |
| Park kastel | cae castell |
| **Enwau yn gysylliedig â ffyrdd** | |
| Park an ale braz | cae'r ala fawr |
| Park an hent braz koz | cae henffordd fawr |
| Park an ale | cae'r ala |
| **Enwau yn gysylliedig â ffurf y tir** | |
| Park izellan | cae isaf |
| Park uhellan | cae uchaf |
| Park ar run | cae serth |
| Liorz crec'h | lloc y copa |
| Park mene | cae bryn |
| Park lein tan | cae copa'r deri |
| Park ar veunten | cae ffynnon |
| Park ar stank | cae llyn (neu cae golchfa) |
| Prad ar riguer | cae'r afon |
| Park ar stankou | cae llynnoedd |
| Park gleb | cae gwlyb |
| Park feunten wenn | cae'r ffynnon wen |
| Park stank ar vilin | cae llyn y felin |
| **Enwau yn gysylliedig â chnydau llysiau** | |
| Park an ed du | cae'r gwenith du (*sarrasin*) |
| Park ar c'hoad | cae'r coed |
| Park ar lanneg | cae rhos |
| Park al lin | cae llin |
| Ar gozenn | braenar |
| Park ar bae'lan | cae banadl |
| Park kerc'h moan | cae ceirch main |
| Park quistin | cae castanwydd |
| Park drez | cae mieri |
| Gozen vraz | tyndir mawr |
| Park an hesq | cae hesg |
| Park ar haleg | cae helyg |
| **Enwau yn dangos ffurf y cae** | |
| Park hir | cae hir |
| Park moan | cae cul |
| Park ledan | cae llydan |
| Park bihan | cae bach |
| Lanneg vras | rhos fawr |
| **Enwau yn gysylltiedig ag adeilad** | |
| Liorz an ti koz | lloc hendy |
| Park tostan | cae agosaf |
| Park pellan | cae pellaf |
| Park dreg an ti | cae tu cefn i'r tŷ |
| Park an ti plouz | cae ty to gwellt |
| Park an iliz | cae'r eglwys |
| Park ar groaz | cae'r groes |
| Liorz ar chapell | lloc y capel |
| Park ar vilin | cae'r felin |
| Park roz vilin | cae rhos y felin |
| Park ar forn | cae popty |

## Tymheredd Eithriadol Chwefror 2008

*"The highest mean* [yn Llansadwrn] *was on the 9th with 10.1C and the lowest 2.6C on the 17th. It was the maxima that excelled with the mean 10.4C highest since 1998 (10.5C). This and the 2nd highest since before 1979 were the only 2-years into double figures. The highest maximum of 16.8C on the 11th (+4.4), with a relative humidity down to 34%, was the highest recorded at this station so early in the year (previously 16.5C on 10th January 1998), and the 2nd highest in February to the 17.2C recorded on the 28th in 1985."*

Ewch i wefan Don Perkins o Lansadwrn Mon.
http://www.llansadwrn-wx.co.uk/

Dyma gofnodion Chwefror o'r Waunfawr ers 1990 yn dangos mor gynnes oedd Chwefror eleni yn ystod y dydd.




*Pa logo yr hoffwch ar gyfer Llen Natur? e-bostiwch!*
*llennatur@yahoo.co.uk*

1 2 3 4 5 6 7 8 9 10